

s c r u t i n y



Nodweddion Craffu Da Cenedlaethol Cymru

Canlyniadau a nodweddion ar gyfer craffu effeithiol mewn llywodraeth leol

Wrth gyfrannu at Astudiaeth “Gwella Craffu” 2013 Swyddfa Archwilio Cymru, bu swyddogion o Gymru benbaladr yn gweithio gyda’r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i ddyfeisio 15 nodwedd graidd yn dangos craffu effeithiol – beth bynnag fo’u diwylliannau, amgylchiadau a threfniadau lleol.

Caiff y 15 nodwedd (*Beth fyddai'r rhain? Sut byddem yn eu hadnabod?*) yn cael eu gwahanu yn 3 chanlyniad craidd (*Beth mae craffu da yn ceisio'i gyflawni?*)

s c r u t i n y



Canlyniad Craidd Un

Mae atebolrwydd democrataidd yn arwain at welliant o ran gwasanaethau cyhoeddus (*“Canlyniadau Gwell”*)

- Mae gan ymchwiliadau trosolwg a chraffu rôl benodol a gwerthfawr o ran gwaith gwella a llywodraethu'r Cyngor
- Mae ymchwiliadau trosolwg a chraffu yn cael y cymorth sydd ei angen gan swyddogion sy'n gallu gwneud gwaith ymchwil yn effeithiol ac maen nhw'n cynnig cyngor, hyfforddiant a dull dadansoddi o safon i gynghorwyr

- Mae ymchwiliadau trosolwg a chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth o dystiolaeth a phersbectifau
- Mae ymchwiliadau trosolwg a chraffu yn ymwneud yn rheolaidd â heriau'n seiliedig ar dystiolaeth o ran darparwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- Mae ymchwiliadau trosolwg a chraffu yn cynnig datrysiadau ymarferol gyda thystiolaeth i nodi problemau.

scrutiny



Canlyniad Craidd Dau

**Mae'r broses gwneud penderfyniadau
ddemocrataidd yn atebol, cynhwysol a chadarn
(*"Penderfyniadau gwell"*)**

- Mae cynghorwyr trosolwg a chraffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.
- Mae'r broses yn derbyn cymorth effeithiol gan dîm rheoli corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir ar gyfer ymchwiliadau trosolwg a chraffu o safon uchel ac yn cael ei chyflwyno mewn modd amserol a chyson.
- Mae ymchwiliadau trosolwg a chraffu yn ystyriol o safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheolyddion, ac yn cydbwysu'r broses o flaenoriaethau pryderon cymunedol yn erbyn materion o risg a phwysigrwydd strategol.
- Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu yn cael eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gyfrifol am ateb cwestiynau yn gyhoeddus.

scrutiny



Canlyniad Craidd Tri

Mae'r cyhoedd yn rhan o sgwrs ddemocrataidd ynghylch darpariaeth gwasanaeth gyfredol ac yn y dyfodol

(“Ymgysylltu gwell”)

- Caiff y gwaith trosolwg a chraffu ei gydnabod gan y weithrediaeth a'r tîm rheoli corfforaethol fel dull cyngor pwysig o ran ymgysylltu cymunedol, ac mae'n hwyluso ymgysylltu gwell ymysg dinasyddion yn y gwaith llywodraethu.
- Mae cyfathrebu effeithiol yn hollbwysig o ran gwaith trosolwg a chraffu er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.
- Mae craffu yn gweithredu'n anwleidyddol ac yn delio'n effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiwn a gwrthdaro.
- Mae trosolwg a chraffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasau da gydag amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol.
- Mae trosolwg a chraffu yn sicrhau bod 'llais' pobl leol a chymunedau yn cael ei glywed yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau.